Gwasanaethau Gofal yn eich cartref eich hun

Tachwedd 2019

Cyflwyniad
Mae poeni am sut y byddem yn ymdopi i fyw yn ein cartrefi pe baem yn sâl, yn anabl neu'n hŷn yn beth cyffredin.

Yn y gorffennol, roedd pobl a oedd angen rhywfaint o help yn tueddu i gael eu hannog i symud i gartref gofal preswyl.

Mae pethau'n dechrau newid a bellach mae pobl yn llawer mwy tebygol o gael help i aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag sy'n bosibl.

Yng Ngwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion Sir y Fflint, rydym eisoes yn helpu dros fil o bobl trwy drefnu gwasanaethau gofal cartref gan ein staff ein hunain neu gan staff sefydliadau eraill.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi manylion cyswllt sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gofal i bobl yn eu cartrefi eu hunain.

Mae hefyd yn anelu at ateb rhai cwestiynau sylfaenol ynglŷn â sut i gael gwasanaeth, pwy sy'n talu a'r safonau y dylech eu disgwyl.

Os hoffech siarad gyda rhywun am eich anghenion penodol, ffoniwch Un Pwynt Mynediad ar 01352 803444.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, anelu at gynnal annibyniaeth. Mae ailalluogi, teleofal a chymorthyddion ac addasiadau i gyd yn enghreifftiau o wasanaethau ymyrraeth gynnar sy'n helpu i atal pobl rhag bod yn ddibynnol ar eraill yn ddi-angen a derbyn cymorth mwy dwys.

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Ansawdd

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gweithio am sawl blwyddyn i wella ansawdd y gofal sydd ar gael. Un ffordd y mae wedi gwneud hyn yw trwy gyflwyno rhestr o ddarparwyr gofal cartref cymeradwy sy'n gorfod cyrraedd ein safonau cyn i ni brynu gofal ganddynt.

Dim ond y sefydliadau sydd ar ein rhestr o 'Ddarparwyr Cymeradwy' sy'n cael eu darparu yn y llyfryn hwn.

Ym mis Mawrth 2004, dechreuodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gymeradwyo asiantaethau gofal cartref. Eu manylion cyswllt yw:

AGGCC Rhanbarth Gogledd Cymru,
Adeiladau'r Llywodraeth,
Sarn Mynach,
Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ. Ffôn: 0300 062 5609
Ffacs: 0300 062 5030
Ebost: CSSIW.North@wales.gsi.gov.uk
www.cssiw.org.uk

Os aiff pethau o'i le

Os ydych yn anfodlon ag unrhyw wasanaeth a drefnir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, cysylltwch â:

Cyfeiriad: Y Swyddog Cwynion
Gwasanaethau Cymdeithasol
Tŷ Dewi Sant,
St David's Park,
Ewloe,
Sir y Fflint CH5 3XT

Rhif Ffôn: 01352 702623
E-bost: ian.maclaren@flintshire.gov.uk

Rhifau defnyddiol eraill i gael cyngor:

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth: 08444 772020
www.adviceguide.org.uk

Gwasanaethau Cymdeithasol, Un Pwynt Mynediad 03000 858 858
spoa@flintshire.gov.uk
Argyfyngau y tu allan i oriau 08450 533 116
gwefan: www.siryfflint.gov.uk/cymdeithasol

Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru 08450 549 969
www.acnew.org.uk

Gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cartref yn Sir y Fflint

C A oes raid i mi dalu am wasanaethau gofal cartref?

A Efallai. Gall gweithiwr cymdeithasol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol drafod yr help sydd ei eisiau arnoch a chynnal 'asesiad' o'ch anghenion. Ni allwn roi help i bawb felly byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i'r bobl mwyaf anghenus.

Os ydym yn cytuno y gallwn eich helpu, byddwn yn cyfrif y gost i chi, os o gwbl. Bydd hyn yn seiliedig ar eich gallu i dalu felly peidiwch â bod ofn gofyn i ni.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn codi tâl ar:

- Wasanaethau i bobl dan 18 oed.
- Rhai gwasanaethau i bobl sy'n cael taliadau gan Gronfeydd Byw'n Annibynnol (CBA).
- Gwasanaethau a ddarperir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

C A allaf drefnu help heb fynd at y Gwasanaethau Cymdeithasol?

A Gallwch. Gallwch drefnu eich gofal eich hun yn eich cartref gydag unrhyw asiantaeth ond bydd raid i chi dalu'r gost i gyd eich hunan.

C A allaf gael budd-daliadau gan y wladwriaeth i fy helpu i dalu?

A Mae budd-daliadau ar gael ac mae'n bosibl y gallwch wneud cais amdanynt os oes gennych anabledd neu os ydych yn gofalu am rywun, er enghraifft, Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini neu Lwfans Gofalwyr.

Am gyngor, ffoniwch y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar 08444 772020.

C A allaf drefnu fy ngofal fy hun hyd yn oed os oes angen arian y Gwasanaethau Cymdeithasol i'm galluogi i gael gwasanaethau?

A Gallwch. Gallwch ddewis prynu eich gofal trwy system o'r enw "Taliadau Uniongyrchol. Ffoniwch ni ar 01352 803444 a gofynnwch am ein llyfryn Taliadau Uniongyrchol.

C Sut mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn penderfynu pwy all gael gwasanaethau a beth sydd ei angen arnynt?

A Rhaid i ni ddarganfod pa ofal sydd ei angen yn Sir y Fflint a chynllunio sut y gallwn drefnu hwn gyda'r arian a'r staff sydd ar gael. Rydym am sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu rhannu'n deg trwy:

- Roi gwasanaethau i'r bobl mwyaf anghenus
- Darparu gwasanaeth mewn ffordd deg dros y sir gyfan
- Gadael i bobl weld sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud

Ffoniwch ni ar 01352 803444am gopi o'n taflen "Mynediad Teg at Ofal".

Pwrpas trefnu gofal yn eich cartref eich hun yw eich helpu i aros yn eich cartref ac i gadw'ch annibyniaeth cyhyd ag sy'n bosibl. Mae hyn yn golygu y bydd lefel y gefnogaeth a ddarparwn yn newid dros amser yn dibynnu ar eich anghenion. Os byddwch yn gwella, gallai'r gefnogaeth leihau neu ddod i ben. Os bydd eich anghenion yn cynyddu, gallai'r gefnogaeth a ddarperir gynyddu hefyd. Ni fyddem yn gwneud unrhyw newidiadau heb siarad gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r mater.

C Beth os wyf am gael mwy o wybodaeth am un o'r Asiantaethau a restrir yn y llyfryn hwn?

A Ffoniwch nhw – dylent allu anfon llyfryn atoch a sôn wrthych am eu gwasanaethau a'u prisiau.

C Os oes gennyf broblem gyda gwasanaeth, gyda phwy allaf siarad?

A. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth reolwr yr asiantaeth cyn gynted ag sy'n bosibl os oes gennych broblem. Dylai'r rheolwr ystyried eich barn yn ddifrifol, ymchwilio i'r mater a chymryd camau i ddatrys y broblem.

Os cafodd y gwasanaeth ei drefnu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, gallwch siarad gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol hefyd. Byddant yn ceisio datrys unrhyw broblemau cyn gynted ag sy'n bosibl i gadw pawb yn hapus.

Os ydych yn anfodlon ar unrhyw adeg, gallwch gysylltu â'r Tîm Adborth Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, CH7 6NN.
Ffôn: 01352 702623

Safon y gofal y gallwch ei ddisgwyl yn eich cartref

1. AGWEDDAU A PHATRYMAU GWEITHREDU GWEITHWYR GOFAL

- Bydd Gweithwyr Gofal yn eich trin chi a'ch cartref â pharch.
- Bydd Gweithwyr Gofal yn gyfrinachgar am y gwasanaethau gofal yr ydych yn eu derbyn.
- Gallwch ddisgwyl i Weithwyr Gofal fod yn ofalgar a phroffesiynol.
- Gallwch ddisgwyl i Weithwyr Gofal dderbyn eich sefyllfa a bod yn gydymdeimladol.
- Bydd Gweithwyr Gofal bob amser yn sensitif i'ch teimladau wrth gwblhau eu tasgau yn eich cartref.
- Bydd Gweithwyr Gofal yn gallu dangos bathodyn adnabod swyddogol i chi.

2. CYFRINACHEDD

- Gallwch ddisgwyl i'ch Gweithwyr Gofal gadw eich gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol. Fodd bynnag, rhaid iddynt rannu gwybodaeth os yw hynny'n ofynnol gan y gyfraith neu os yw lles pobl eraill mewn perygl.
- Dim ond os oes angen i rywun gael gwybod y caiff gwybodaeth ei rhannu gyda rhywun arall. Fel arfer, gofynnir eich caniatâd neu ganiatâd eich gofalwr, os yw hynny'n briodol.
- Gallwch ddisgwyl i'ch Gweithiwr Gofal beidio â thrafod eich sefyllfa gydag unrhyw un arall sy'n derbyn gwasanaethau neu gyda'u ffrindiau ac aelodau o'u teulu.
- Os oes gennych ofalwr anffurfiol, byddant yn cael cyfle i roi eu barn yn breifat. Bydd y farn honno yn aros yn breifat lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol.

3. CYMHWYSEDD

- Mae Gweithwyr Gofal yn cael hyfforddiant sylfaenol llawn wrth ymuno â'r asiantaeth.

- Gallwch ddisgwyl i anghenion hyfforddiant Gweithwyr Gofal gael eu hadolygu bob blwyddyn i nodi hyfforddiant pellach sydd ei angen arnynt.

- Bydd Gweithwyr Gofal yn gwybod beth yw'ch anghenion a byddant yn gallu'ch helpu gyda'r tasgau a gytunwyd.

- Bydd Gweithwyr Gofal wedi cael profiad a hyfforddiant addas i ddiwallu'ch anghenion penodol.

- Bydd Gweithwyr Gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd gan eu rheolwyr.

4. HYBLYGRWYDD

- Gallwch ddisgwyl i'ch gwasanaeth gofal gymryd eich anghenion, eich hoffterau a'ch casbethau i ystyriaeth wrth drefnu eich gwasanaethau.

- Os ydych yn sâl neu os yw eich sefyllfa yn newid yn sydyn, gallwch ddisgwyl i Weithwyr Gofal fod yn hyblyg o ran sut y maent yn eich cefnogi a thrafod y ffordd orau o'ch helpu gyda chi. Os yw'r newidiadau yn debygol o bara, bydd angen iddynt drafod newidiadau yn eich gofal gyda'u rheolwr.

- Rydym yn deall y gall sefyllfaoedd godi pan fyddwch yn dymuno canslo eich ymweliad gan yr Asiantaeth. I osgoi gorfod talu am yr ymweliad hwnnw, gofynnwn i chi ddweud wrth yr Asiantaeth o leiaf 24 awr cyn i chi ei ganslo.

5. DIBYNADWYEDD

Dylai Gweithwyr Gofal:

- Ddod i'ch helpu pan ydych yn eu disgwyl.

- Aros yn eich cartref am y cyfnod a gytunwyd.

- Cwblhau'r tasgau a gytunwyd.

- Gallwch ddisgwyl cael clywed am unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i'ch trefniadau gofal a dylech gael gwybod am newidiadau o flaen llaw lle bo hynny'n bosibl.

- Oherwydd amgylchiadau anrhagweladwy, mae'n bosibl na fydd aelod o staff yn cyrraedd ar yr amser a gytunwyd ar rai achlysuron, felly gofynnwn i chi ganiatáu 30 munud cyn ac ar ôl yr amser yr ydych yn eu disgwyl. Fodd bynnag, os bydd yr aelod o staff yn hwyrach na 30 munud byddem yn disgwyl i'r asiantaeth gysylltu â chi i ddweud wrthych pryd y maent yn gobeithio cyrraedd. Os bydd yr Asiantaeth yn methu â gwneud hyn, caiff hyn ei weld fel 'ymweliad a gollwyd' ac ni chodir tâl arnoch am yr alwad hon.

6. ADOLYGU'CH GOFAL

- Gallwch ddisgwyl i'r unigolyn sy'n rheoli'ch gofal yn yr asiantaeth adolygu'ch gofal yn rheolaidd.

- Os yw eich sefyllfa'n newid yn sylweddol, bydd angen i Weithiwr Cymdeithasol ailasesu eich anghenion. Gall yr asiantaeth gysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol ar eich rhan os ydych yn dymuno.

- Yn ystod cyfarfod adolygu, mae'n bwysig trafod pob mater sy'n effeithio arnoch mewn perthynas â'r gofal yr ydych yn ei gael. Peidiwch â phoeni am gwyno gan fod pob adborth yn helpu'r asiantaethau i ddatblygu eu gwasanaethau, nid yn unig i ddiwallu'ch anghenion chi, ond anghenion pobl sy'n methu â siarad drostynt eu hunain hefyd.

- Mae'ch barn am y gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn yn hanfodol i'n helpu i wneud y gwasanaeth yn un da.

7. PARHAD MEWN STAFF

- Gallwch ddisgwyl nifer fach o staff rheolaidd i'ch cefnogi yn eich cartref, tîm o ofalwyr y gallwch ddod i'w hadnabod. **Sylwch:** Os oes dau Weithiwr Gofal yn rhoi cymorth i chi ar yr un pryd, bydd hyn yn cynyddu nifer y staff sy'n gysylltiedig â'ch gofal.

- Os oes angen newid staff mewn argyfwng, gallwch ddisgwyl cael help gan rywun yr ydych eisoes yn ei adnabod.

- Os oes unigolyn sy'n ddieithr i chi yn cael ei anfon i'ch cefnogi oherwydd argyfwng, dylech ddisgwyl i'r Asiantaeth Gofal geisio cysylltu â chi dros y ffôn i ddweud wrthych beth yw enw'r Gweithiwr Gofal hwn.

8. GWYBODAETH Beth allwn ei ddisgwyl

Dylech:

- gael gwybodaeth ysgrifenedig am yr Asiantaeth Gofal sy'n eich helpu.

- cael cynllun ysgrifenedig sy'n disgrifio'r trefniant gofal a gytunwyd gan y Gweithiwr Cymdeithasol / Rheolwr Gofal a'u trefnodd.

- cael gwybodaeth ysgrifenedig am sut i gwyno os nad ydych yn fodlon ag unrhyw elfen o'ch gofal.

- cael eich cyflwyno i Reolwr yr Asiantaeth Gofal sy'n eich cefnogi cyn i'r gwasanaeth ddechrau. Efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser ond dylai ddigwydd cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl dechrau'r gwasanaeth.

- cael eich cyflwyno i'r Gweithiwr/Gweithwyr Gofal a fydd yn eich cefnogi.

- cael adolygiad o'ch trefniadau gofal tua phedair wythnos ar ôl iddynt ddechrau er mwyn i chi gael lleisio eich barn.

- gallu gofyn am newid eich trefniadau gofal ar unrhyw adeg.

- disgwyl cyswllt rheolaidd gan yr unigolyn a drefnodd eich gwasanaethau gofal, eich gweithiwr cymdeithasol a rheolwr y gweithwyr gofal sy'n eich cefnogi.

Rhestr A-Y o Asiantaethau Gofal Cartref sydd â chontractau gyda Sir y Fflint ac sydd wedi'u lleoli yn y Sir.

Bluebell Care At Home Ltd
Office 4, Parc Busnes St Andrew, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XB
Rheolwr Cofrestredig: Julie Macintyre enquiry@bluebellcareathome.co.uk
www.bluebellcareathome.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Anabledd Corfforol, Anabledd Dysgu, Colli Defnydd y Synhwyrau, Dementia

Carewatch
Building 4, Acorn Business Village, Fflint, CH6 5YN. Ffôn: 01352 870671
Rheolwr Cofrestredig: Tracey Webster twebster@carewatch.co.uk
www.carewatch.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Complete Care & Enablement Services Ltd
Uned 74, Greenfield Business Parc, Trefynnon, CH8 7GR.
Ffôn: 01352 230011
Rheolwr Cofrestredig: Rebecca Wyke rebecca.wyke@caretech.com
www.caretech-uk.com
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Care Co
The Old Courthouse, 15 Glynne Way, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5 3NS.
Ffôn: 01244 538600 Rheolwr Cofrestredig: Dee Parry dee@carecohc.co.uk
www.carecouk.com
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol, Camddefnyddio Sylweddau

Compass Community Care Ltd
St Andrew's Park, Queen's Lane, Ystâd Ddiwydiannol Bromfield, Yr Wyddgrug, CH7 1XB.
Ffôn: 01352 706234 Rheolwr Cofrestredig: Karen Lamb
karenlamb@compassccl.com
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Cymryd Rhan
Uned 8, Plas Pentwyn, Castle Road, Coed Poeth, Wrecsam, LL11 3NA
Ffôn: 01978 754655
Rheolwr Cofrestredig: Jude Jones www.cymryd-rhan.org.uk
Categorïau Cofrestriad: Anabledd Dysgu, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Anabledd Corfforol.

Everycare
10 Gorllewin Ffordd Caer, Queensferry, Sir y Fflint, CH5 1SA. Ffôn: 01244 821050
Rheolwr Cofrestredig: Ann Bartley deecare@btconnect.com www.everycare.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyngor Sir y Fflint
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NN. Ffôn: 01352 701414
Rheolwr Cofrestredig: Mark Holt mark.holt@flintshire.gov.uk
Categorïau Cofrestriad: Anableddau Dysgu, Colli Defnydd y Synhwyrau/Nam ar y Synhwyrau, Anableddau Corfforol, Problemau Iechyd Meddwl

Hollybank Domiciliary Care
Shotton Lane, Shotton, Sir y Fflint, CH5 1QS
Ffôn: 01244 812435
Rheolwr Cofrestredig: Natalie Marshall enquiries@hollybankcarehome.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Asiantaeth Gofal Janet Roberts
4 Sgwâr Fictoria, Stryd Brynffordd, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 7RD.
Rheolwr Cofrestredig: Janet Roberts Ffôn: 01352 715627
Email: info@janetrobertscareagency.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Just One Recruitment & Training Ltd
12 Canolfan Fusnes y Podium, Canolfan Daniel Lloyd, Yr Wyddgrug, CH7 1NP.
Rheolwr Cofrestredig: Jennie Millington Ffôn: 01352 700300
info@justone.org.uk www.justone.org.uk
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol, Camddefnyddio Sylweddau, Teuluoedd â Phlant Ifanc

Liberty Care Flintshire
Crossing House, Swyddfeydd y Llawr Isaf, Broomfield Lane, Yr Wyddgrug, CH7 1JW.
Ffôn: 01352 756706 Rheolwr Cofrestredig: Lisa Jones
libertycareflintshire@sky.com
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Nestor Primecare Services Ltd
Yn masnachu fel **Allied Buckley** (Celtic Care gynt)
Uned 8, Parc Busnes Acorn, Y Fflint, CH6 5YN
Rheolwr Cofrestredig: Sam Edwards-Griffiths Ffôn: 01244 540940
Ffacs: 01244 549913 holywell@alliedhealthcare.com
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Premier Care Plus
Ystafell 3, Uned 1, Stephen Gray Road, Yr Wyddgrug, CH7 1HE.
Ffôn: 01352 758444 Rheolwr Cofrestredig: Jane McCabe
enquiries@premiercareplus.co.uk www.premiercareplus.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol, Camddefnyddio Sylweddau

Premier Homecare North Wales Ltd
Pinfold House, Pinfold Lane, Alltami, Sir y Fflint, CH7 6NZ. 01244 544442
Rheolwr Cofrestredig: Sue Jones info@phnw.co.uk
www.premiernursing.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Cymdeithas Frenhinol Mencap – Mencap Cymru
Uned 6, Canolfan Fenter Glannau Dyfrdwy, Rowley's Drive, Shotton, CH5 1PP.
Ffôn: 01244 507001 Rheolwr Cofrestredig: Jane Thomas
sue.wells@mencap.org.uk
Categorïau Cofrestriad: Anabledd Dysgu

S & S Care UK Ltd
The Glynne, 49 Stryd Fawr, Caergwrle, Sir y Fflint LL12 9LH.
Ffôn: 01978 351722. Rheolwr Cofrestredig Dros Dro: Nicole Houttfleisch
nicole.sscare@hotmail.com
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol, Camddefnyddio Sylweddau

Gwasanaethau Byw â Chymorth – Cyngor Sir y Fflint
Swyddfeydd y Sir, Stryd y Capel, Y Fflint, Sir y Fflint, CH6 5BD.
Ffôn: 01352 704584 Rheolwr Cofrestredig: Darren Rhodes
Categorïau Cofrestriad: Anabledd Dysgu

Verytas Solutions Ltd
Clwyd House, Ffordd Argoed, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 3HZ
Tel 01244 552126
Rheolwr Cofrestredig: Graham Patterson verytas@hotmail.co.uk
www.verytas.net
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Wepre Villa Home Care
Ffordd Treffynnon, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3BF. Ffôn: 01244 537733
Rheolwr Cofrestredig: Sue Taylor weprehomecare@btconnect.com
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol, Teuluoedd â Phlant Ifanc

Rhestr A-Y o Asiantaethau Gofal sydd â chontractau gyda Sir y Fflint ond sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir

Autism Initiatives
3 Crown Mews, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AA
Rheolwr Cofrestredig: Diane Hesketh Ffôn: 01745 817200
Ffacs 01745 817200 diane.hesketh@autisminitiatives.org
Email aled.james@autisminitiatives.org
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu

Bluebird Care
Egerton House, 55 Hoole Road, Deva, CH2 3NJ. Ffôn: 01244 318348
Rheolwr Cofrestredig: Claire Griffiths cheshirewest@bluebirdcare.co.uk
www.bluebirdcare.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol, Teuluoedd â Phlant Ifanc.

CALON LÂN
29A Ffordd Russell, Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3BS. Ffôn: 01745 334809.
Ffacs: 01745 770224 Rheolwr Cofrestredig: Martina Hanes
denbighshire@calonlan.org.uk www.calonlan.org.uk
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Living Ambitions
5 Greenwich House, Ffordd Sealand, Caer, CH1 4LD.
Ffôn: 03339 992572 Ffacs: 01244 372527
Rheolwr Cofrestredig: Tony Burke tony.burke@livingambitions.co.uk
www.livingambitions.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol, Camddefnyddio Sylweddau, Teuluoedd â Phlant Ifanc

Cartref Ni
Old Bank Chambers, Stryd Fawr, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0RD.
Ffôn: 01745 584527 Rheolwr Cofrestredig: Tracy Peers
admin@cartrefni.com www.cartrefni.com
Categorïau Cofrestriad: Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

Coastal Homecare Limited
Uned 3 Tai Tywyn Canolfan Busnes, Sandy lane, Prestatyn, Sir Denbigh, LL19 7SF. Rheolwr Cofrestredig: Karen Owen
Ffôn: 01745 859474 Ffacs: 01745 859474
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Colli Defnydd y Synhwyrau.

Carers Trust Gogledd Cymru Gofal Croesffyrdd
Office Suite 39 + 40, Quinton Hazel Enterprise Park, Ffordd Glan y Wern, Bae Colwyn, LL28 5BS.
Rheolwr Cofrestredig: Alison Jones Ffôn: 01492 542212
northwales@nwcrossroads.org.uk www.nwcrossroads.org.uk
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol, Camddefnyddio Sylweddau.

At Home – Vale Senior Care
No 5 Upper Office, Coronation Corporation Building, Back Row, Denbigh, LL16 3TE
Ffôn: 01745 814370 Ffacs: 01745 814370
info@athome-valeseniorcare.co.uk www.athome-valeseniorcare.co.uk
Rheolwr Cofrestredig: Emma Murray
Categorïau Cofrestriad: over 65 Dementia/ Eiddilwch Meddwl, Anabledd Corfforol

Q Care & Special Care
2b Sandy Lane, Prestatyn, Sir Ddinbych, LL19 7SG. Ffôn: 01745 851310
Rheolwr Cofrestredig: Siân Morris annmarie@qcare.org.uk
www.homecarenorthwales.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Dementia, Eiddilwch Meddwl, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol

NAS Cymru (National Autistic Society)
Corlan, Uned 3, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP
Ffôn: 01352 744069. Rheolwr Cofrestredig: Robert Bell
rob.bell@nas.org.uk
Categorïau Cofrestriad: Anabledd Dysgu

TLC Nursing and Homecare Plus
60 Pen y Bryn, Wrecsam, LL13 7HY. Ffôn: 01978 351596
Rheolwr Cofrestredig: Paul Murphy office60pyb@aol.com
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Dementia/ Eiddilwch Meddwl, Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl (Gweithredol), Anabledd Corfforol, Camddefnyddio Sylweddau, Gofal Nyrsio

Voyage
Uned 3, Plas Pentwyn Enterprise Centre, Ffordd Castell, Coedpoeth, Wrecsam, LL11 3NA.
Rheolwr Cofrestredig: Jeanette Price Ffôn: 01978 720626
jeanetteprince@voyagecare.co.uk www.voyagecare.co.uk
Categorïau Cofrestriad: Anafiadau i'r Ymennydd, Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.

Cyf: A6